JULIANNE

Diwrnod Nadolig yn y Jyngl

(penderfyniad / dyfalbarhad / dewrder)

Am wythnosau roedd Julianne wedi edrych ymlaen at gael bod adref efo'i theulu. A dyna hi o'r diwedd yn y maes awyr yn Lima, De America. O'i blaen roedd taith o bedwar cant wyth deg o filltiroedd i Pucallpa ym Mheriw. Byddai'r daith yn mynd â hi dros y jyngl. Edrychai ymlaen at gael edrych i lawr er mwyn iddi gael gweld rhai o'r anifeiliaid. Cofiodd yn sydyn am ei thad. "Os gwn i beth ga i'n anrheg Nadolig ganddo y tro hwn tybed?" Daeth atgofion am y Nadoligau a fu a chofiodd fel y byddai ei thad yn hoff o sôn am fywyd anifeiliaid y jyngl ac fel y byddai'n dweud dro ar ôl tro, "Os byth y byddi ar goll yn y jyngl cofia chwilio am yr afon agosaf a'i dilyn." Tra oedd hi'n hel meddyliau fel hyn daeth llais i annog y teithwyr i ymgynnull ar gyfer y daith.

Cododd yr awyren yn osgeiddig o'r maes awyr a throelli ychydig cyn anelu am y jyngl. Dyna lle roedd hi'n llygadrythu ar y carped gwyrdd islaw pan ddaeth llais y peilot i ymyrryd ar ei meddyliau. "Os gwelwch chi'n dda wnewch chi aros yn eich seddi. Mae storm o fellt a tharanau yn ein hwynebu. Ond does dim i boeni amdano. Diolch!"

Gwyliai'r teithwyr fflachiadau'r mellt yn gwibio heibio a rhu'r taranau i'w clywed uwchlaw sŵn yr injan. Dechreuodd yr awyren siglo o'r naill ochr i'r llall. Roedd y glaw yn taro fel gordd ar ochr yr awyren. Yn sydyn dyma un sigliad erchyll. Roedd yr awyren yn disgyn o'r awyr! Roedd y teithwyr yn sgrechian a gweiddi a'r bagiau'n chwyrlïo i bob cyfeiriad. Diffoddodd y golau a rhuodd yr injan. Roedd yn banic llwyr!

Gafaelodd Julianne yn dynn yn ochrau ei sedd. Ond roedd hi'n wlyb domen. Beth ar y ddaear oedd yn digwydd? Sylweddolodd nad oedd hi mwyach yn yr awyren! Syrthiodd i berlewyg. Pan ddaeth ati'i hun roedd hi'n olau a'r storm wedi cilio. Roedd hi'n dal yn sownd yn ei sêt ar lawr y jyngl. Roedd yn amlwg fod yr awyren wedi torri'n ddarnau yn ystod y storm. Ond doedd yna neb o gwbl o'i chwmpas yn unman. Dim ond sŵn y jyngl.

Ceisiodd agor y belt oedd yn ei dal yn ei sedd. Ar ôl strygl fawr llwyddodd yn y diwedd. Cododd ar ei thraed. O'r fath boen oedd yn ei throed dde. Dechreuodd gerdded. Gwelodd fag oren yn y pellter. Cerddodd yn araf-boenus tuag ato. Agorodd y bag yn

ofalus. Ynddo roedd teisen Nadolig a phob math o ddanteithion eraill Nadoligaidd. Roedd hi bron â llwgu. Mae'n amlwg fod y bag yn perthyn i un o'r teithwyr ond doedd neb yn unman – dim ond yr anifeiliaid a'r adar lliwgar. Dechreuodd fwyta rhai o'r danteithion.

Pa ddiwrnod oedd hi? Am oriau bu'n meddwl a chyfri'r diwrnodau – oedd, roedd hi'n ddydd Nadolig. Cofiodd yn sydyn am ei thad. "Os byth y byddi ar goll yn y jyngl dos i chwilio am afon a'i dilyn." Cododd ar ei thraed a dechrau cerdded a'r boen yn ei throed yn gwaethygu o funud i funud. Bu'n cerdded am hydoedd. Daeth y nos.

Rhaid oedd gorffwyso. Cysgodd ar lawr y jyngl. Bore drannoeth cychwynnodd unwaith eto i chwilio am afon. A dyna fu ei hanes am y deuddydd nesaf. O'r diwedd gwelai belydrau'r haul yn nofio ar wyneb y dŵr. Afon! "Mi fydda i'n saff rŵan!" meddyliodd.

Dilynodd gwrs yr afon yn araf. Roedd y boen erbyn hyn yn annioddefol ac roedd cynnwys y bag oren bron wedi diflannu. Ar ôl cerdded am ddau ddiwrnod cyfan daeth cwt pren i'r golwg. Cyrhaeddodd hi'r cwt. Agorodd y drws. Roedd yn berffaith wag. Yn sydyn clywodd sŵn gwahanol yn dod o gyfeiriad arall. Nid sŵn anifeiliaid oedd yna. Sŵn pobl. Helwyr oedden nhw. Gwelodd un ohonyn nhw Julianne yn llesg, yn gorwedd wrth ddrws y cwt. Cyn pen dim roedden nhw wedi ei chario i ysbyty ar gwr y jyngl. Fuo hi fawr o dro nad oedd hi wedi gwella'n llwyr.

Adnod: "Dyma ni'n mynd i fyny i Jerwsalem; fe gaiff Mab y Dyn ei draddodi i'r prif offeiriaid a'r ysgrifenyddion..." Mathew 20:18

Gweddi: O Dduw, mae yna adegau pan mae'n rhaid i ni ddibynnu ar bobl eraill. Amen.

Trafod:

- Fedrwch chi feddwl am storïau eraill tebyg i'r stori hon?
- Sut y byddech chi'n disgrifio ymddygiad Julianne?